Cofnodion cyfarfod hybrid y **CYNGOR** a gynhaliwyd nos Fercher, 18 Hydref 2023, am 6.00pm.

## PRESENNOL

Y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine (Maer)

Y Cynghorwyr M. Blackwell, Mrs M. A. Blakeley-Walker, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, S. Feeney, Mrs. J. Hughes, A.R. James, K. R. Jones, Mrs D. L. King, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, Ms R. Roberts, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford, D. Simmons, A. Walker a Miss C. L. Williams

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref

Gwnaeth Caplan y Maer, y Parchedig Helen Gheorghiu Gould, ddechrau'r cyfarfod drwy arwain pawb a oedd yn bresennol mewn gweddi.

## 64. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Mrs J. M. Evans a Miss S. L. Roberts a derbyniwyd ymddiheuriadau gan Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref hefyd.

## 65. DATGANIAD SWYDD CYNGHORYDD – WARD CEFNDY Y RHYL

Cynghorodd Clerc y Dref y Cyngor yn ffurfiol y cafwyd hysbysiad sedd wag Cynghorydd Cymuned yn Ward Cefndy y Rhyl ar 12 Hydref 2023. Y dyddiad cau i 10 etholwr wneud cais am gynnal etholiad yw 1 Tachwedd 2023.

***PENDERFYNWYD*** *nodi'r adroddiad.*

## 66. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd y Cyngor a'i bwyllgorau a ganlyn i'w cymeradwyo fel cofnodion cywir:

Cyfarfod y Cyngor - 20 Medi 2023 - Cofnodion rhifau 53 - 63

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine ac eiliwyd gan y Cynghorydd Miss C. L. Williams a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Y Pwyllgor Cynllunio - 20 Medi 2023 - Cofnodion hifau 16 - 18

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine ac eiliwyd gan y Cynghorydd D. Simmons a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Cadarnhau neu fel arall:

Y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol - 4 Hydref 202 - Cofnodion rhifau 31 - 41

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. J. Rutherford ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. R. James a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir a'u cadarnhau i'w gweithredu.*

## 67. CYFLWYNIAD: TÎM DIGARTREFEDD CYNGOR SIR DDINBYCH

**[Datganodd y Cynghorydd Miss C. L. Williams fuddiant personol yn yr eitem a ganlyn oherwydd ei hymwneud â'r system SARTH]**

Ymhellach i gofnod rhif 27 cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 6 Medi 2023, croesawodd y Maer ddau swyddog Cyngor Sir Ddinbych, Ms Ann Lloyd, Pennaeth y Gwasanaeth, a Mr Nigel Jones, Rheolwr y Gwasanaeth, i'r cyfarfod i drafod digartrefedd yn y Rhyl.

Cyflwynodd y swyddogion drosolwg cynhwysfawr o'r gwasanaeth i'r Cyngor, gan ddatgan:

- Bod rheoliadau Covid wedi'u llacio gan Lywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau gynnig lletya brys fel blaenoriaeth.

- Bu cynnydd arwyddocaol yn ystod cyfnod Covid ac roedd wedi parhau'n gyson ers hynny ar rhwng 160 i 200 o aelwydydd y mis.

- Pan fydd unigolyn yn cyflwyno ei hun i'r awdurdod lleol fel person digartref mae angen sefydlu bod cysylltiad lleol â Sir Ddinbych ac mae hyn yn cael ei ddilysu'n drylwyr. Os nad yw person digartref yn medru dangos cysylltiad lleol caiff ei gynorthwyo yn ôl at ei awdurdod lleol perthnasol. Yr unig eithriad i hyn yw ble bo risg, er enghraifft, cam-drin domestig.

- Mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar atal digartrefedd, ond mae hyn yn dibynnu ar bobl yn cysylltu â'r awdurdod lleol, ac yn aml nid yw hynny'n digwydd nes eu bod mewn argyfwng.

- Ceir rhesymau niferus pam fod pobl yn mynd yn ddigartref a, ble bo'n briodol, bydd y Cyngor yn trafod gyda landloriaid ac yn ceisio cymryd cyfrifoldeb am denantiaeth a rheoli'r denantiaeth drwy gytundeb.

- Dim ond dau sy'n garw gysgu yn Sir Ddinbych ar hyn o bryd. Roedd y ddau wedi gwrthod cymorth gan y Cyngor a'r mwyaf ar unrhyw un adeg yw saith i wyth o bobl.

- Gynted ag y nodir bod rhywun yn garw gysgu bydd y Cyngor yn anfon tîm arbenigol i ymgysylltu gyda'r unigolyn ac adnabod llwybr yn ôl i fyw mewn annedd.

Mewn ymateb i gwestiynau'r aelodau dywedodd y swyddogion:

- Yn achos teuluoedd wedi'u rhoi mewn eiddo gwely a brecwast, ac yn benodol teulu a gartrefwyd mewn garej blaenorol, cynghorwyd, er bod yr adeilad wedi bod yn garej yn flaenorol roedd wedi'i cael ei adnewyddu i'r un safon a gweddill y gwesty gwely a brecwast dan sylw ac wedi cael ei archwilio. Gwnaed y gwaith adnewyddu cyn i'r gwasanaeth ddechrau defnyddio'r gwesty gwely a brecwast penodol hwnnw, a bod gan bob

gwesty gwely a brecwast ei dîm dynodedig ei hun o swyddogion sy’n mynd yno’n ddyddiol.

- Mae 1,760 o bobl ar restr aros SARTH (Un Llwybr Mynediad i Dai) ar hyn o bryd, gyda 100 ym Mand 1.

- Yn achos garw gysgwyr heb gysylltiad lleol â Sir Ddinbych, byddent yn cael eu lletya am gyfod byr ond yna cael eu cynorthwyo’n ôl i’w hardal leol.

- Mae mwyafrif y llety gwely a brecwast a ddefnyddir mewn argyfwng yn y Rhyl, gyda rhywfaint yn Ninbych a Llangollen.

- Roedd lleoliad y llety’n ddibynnol ar ba ddarparwyr gwestai oedd yn fodlon lletya pobl digartref.

- Byddai angen rheoli’r toriadau i’r gwasanaeth a ragfynegir yn ofalus iawn. Petai gan y Cyngor Sir ei lety ei hun ar gael iddo, yna byddai’n medru lleihau’r costau, ond y prif nod oedd cael pobl yn eu tenantiaethau eu hunain a’u cadw yno.

- Nodwyd bod aelod wedi dod gydag aelod Cabinet Cyngor Sir Ddinbych i weld Gwesty’r Westminster ac, er bod y llety yn anaddas ar gyfer y teulu yn y ystafell, fe’i hysbyswyd y gofalwyd admanynt yn dda a’u bod wedi byw yno am 10 mis.

- Cadarnhawyd bod swyddogion yn rheoli pwy sy’n cael eu rhoi ym mha westy gwely a brecwast i osgoi gwrthdaro potensial.

- Roedd tua 75% (135) o’r aelwydydd yn bobl sengl neu’n gyplau, gyda’r gweddill yn deuluoedd.

- Nodwyd pryderon aelod nad oedd pobl yn medru manteisio ar y cynllun Tai Teg oherwydd lefelau incwm.

- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch sut y penderfynwyd pa lety oedd yn addas ar gyfer lletya a’r bobl a oedd yn addas ar gyfer y llety hwnnw, cynghorodd y swyddogion nad oedd safon ar gyfer llety mewn argyfwng ar hyn o bryd. Roedd Llywodraeth Cymru wedi bwriadu cyflwyno deddfwriaeth llety addas a fyddai wedi cael gwared ar y dewis o ddefnyddo gwestai gwely a brecwast, ond roedd hyn wedi’i ohirio.

- Esboniodd y swyddogion y broses SARTH er budd yr aelodau nad oeddynt yn gyfarwydd â’r system a phwysleiswyd fod y Timau Atal Digartrefedd yn cynnal asesiad o anghenion penodol cleientiaid ac yn rhoi cymorth i’r cleientiaid a’r landlordiaid, yn cynnwys materion fel anghenion iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau.

- Cadarnhawyd bod y gwasanaeth yn gweithio ar y cyd â’r Swyddog Cartrefi Gwag.

Diolchodd y Maer i’r swyddogion ar ddiwedd y cyflwyniad am eu presenoldeb ac am y wybodaeth a rannwyd.

## 68. YMGYNGHORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – CYNIGION I LEIHAU ORIAU GWASANAETHU LLYFRGELLOEDD SIR DDINBYCH

**[Gwnaeth y Cynghorwyr B. Mellor a Mrs W. M. Mullen-James ddatgan buddiant sy'n rhagfarnu yn yr eitem a ganlyn gan eu bod yn aelodau Cabinet Cyngor Sir Ddinbych a gadawodd y ddau y siambr yn ystod y drafodaeth a'r pleidleisio ar yr eitem hon.]**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at yr ymgynghoriad cyfredol yn ymwneud â chynnig arfaethedig i leihau oriau agor llyfrgell y Rhyl (dosbarthwyd copi gyda'r agenda), a gofynnodd am gyfarwyddiadau'r aelodau sut i ymateb.

Bu'r aelodau'n trafod y cynnig yn fanwl, gan nodi bwriad y Cyngor Sir i gwtogi'r gwasanaeth ledled y sir, a mynegwyd y pryderon a ganlyn:

- byddai unrhyw gwtogiad yn y gwasanaeth llyfrgell yn effeithio ar y gwasanaethau atodol a ddarperir ar y cyd â'r gwasanaeth llyfrgell, fel y Siop Un Alwad.

- mae'r llyfrgell yn chwarae rhan hanfodol yn y gymuned, ac ni fyddai hynny'n cael ei liniaru gan yr oriau diwygiedig arfaethedig.

- er eu bod yn gwerthfawrogi'r anawsterau ariannol roedd y Cyngor Sir yn eu wynebu, nid oedd cwtogi oriau llyfrgell y Rhyl yn ateb dichonadwy a byddai'n effeithio ar y trigolion mwyaf bregus ac amddifadus yn y sir.

- roedd llyfrgell y Rhyl yn cael ei ystyried yn ganolfan gynnes a diogel i unigolion a theuluoedd.

***PENDERFYNWYD*** *y byddai Clerc y Dref yn paratoi ymateb drafft i'r aelodau ei ystyried, ac awdurdodwyd y Maer i gymeradwyo'r ymateb terfynol.*

## 69. ADRODDIAD Y MAER

Cyflwynodd y Maer fanylion digwyddiadau yr oedd hi a'r Dirprwy Faer wedi bod ynddynt yn ystod y mis diwethaf (dosbarthwyd copi gyda'r agenda).

Cyfeiriodd y Maer yn benodol at ei phresenoldeb, ar ran y Cyngor, yng ngwasanaeth angladd y Cynghorydd Peter Prendergast lle roedd cynulleidfa gref.

Hefyd cyfeiriodd y Maer at fynd i seremoni enwi yn Rheilffordd Fach y Rhyl lle'r enwyd injan newydd.

Cynghorodd y Dirprwy Faer am ei phresenoldeb mewn dau ddigwyddiad, yn Theatr Twm o'r Nant a Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd MIND Dyffryn Clwyd

Manteisiodd y Cynghorydd Mrs D. L. King ar y cyfle i fynegi ei gwerthfawrogiad i'w chyd-gynghorwyr am eu cymorth a'u cefnogaeth ers marwolaeth trist y Cynghorydd Prendergast.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

## 70. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol mabwysiedig y Cyngor, cyfeiriodd y Cadeirydd at Atodlen B a gyflwynwyd gan Glerc y Dref (rhestr o daliadau nad ydynt yn daliadau rheolaidd i'w rhyddhau yn ystod y mis nesaf) (dosbarthwyd gyda'r agenda).

| Taleb Rhif | Cyflenwr | Manylion y cyflenwad | Swm £ |
|---|---|---|---|
| 1710 | Cyng. J McAlpine | Lwfans y Maer 23/24 Taliad 2 o 3 | 433.33 |
| 1711 | Cyng. J McAlpine | Lwfans Uwch Swydd 23/24 Taliad 2 o 3 | 166.67 |
| 1712 | Cyng. C Williams | Lwfans y Dirprwy Faer 23/24 Taliad 2 o 3 | 133.33 |
| 1713 | Cyng. C Williams | Lwfans Uwch Swydd 23/24 Taliad 2 o 3 | 166.67 |
| 1714 | Cymdeithas Cynghorau Tref Gogledd a Chanolbarth Cymru | Cinio i bedwar cynrychiolydd yn dilyn y cyfarfod ar 20 Hydref 2023 | 88.00 |
| 1715 | Sandra Williams | Gwasanaethau cyfieithu hyd at 30 Medi 2023 | 316.09 |
| 1716 | RNLI Y Rhyl | Dau docyn i Noson Giniawa'r Criw, 21 Hydref 2023 | 70.00 |
| 1717 | Cadetiaid Môr y Rhyl | Dau docyn i'r Noson Giniawa, 27 Hydref 2023 | 70.00 |
| 1718 | Pwyllgor Lles Gorsaf Dân y Rhyl | Cyfraniad at y Noson Tân Gwyllt a Choelcerth 2023 | 5,000.00 |
| | **Cyfanswm Atodlen B** | | **£6,444.09** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen i'w thalu a llofnodi'r taliadau gan ddau gynghorydd.*

## 71. CYFRIFON ARIANNOL HYD AT 30 MEDI 2023 A RHAGFYNEGIADAU BLWYDDYN ARIANNOL 2023/24

Cyfeiriodd Clerc y Dref at yr adroddiad ar y cyd ganddo a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn dangos y perfformiad yn erbyn y gyllideb, a oedd ar y trywydd cywir, ond cynghorodd y gall lawer newid dros gyfnod o chwe mis.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

## 72. PERFFORMIAD BUDDSODDI – MIS EBRILL – MIS MEDI 2023 A RHAGFYNEGIADAU BLWYDDYN ARIANNOL 2023/24

Ymhellach i gofnod rhif 23 cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 6 Medi 2023, cyfeiriodd Clerc y Dref at ei adroddiad ar y cyd â'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) a oedd yn dangos y derbyniwyd £2,639.61 o'r buddsoddiadau.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

## 73. PENODI LLYWODRAETHWR YSGOL CYMUNEDOL – YSGL CRIST Y GAIR

Adroddodd Clerc y Dref fod y Cynghorydd Ms J. McAlpine wedi ymddiswyddo o fod yn Llywodraethwr Cymunedol Ychwanegol a benodwyd gan y Cyngor Tref yn Ysgol Crist y Gair, a gofynnodd i'r aelodau ystyried penodi cynghorydd arall yn ei lle.

***PENDERFYNWYD*** *penodi'r Cynghorydd A. Walker.*

## 74. HYFFORDDIANT I GADEIRYDDION

Cynghorodd Clerc y Dref am ohebiaeth a dderbyniwyd gan Gyngor Sir Ddinbych yn cynnig hyfforddiant i Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Cyngor a'i Bwyllgorau, ar gost o £15 yr aelod. Byddai'r hyfforddiant yn cael ei gynnal fore Gwener, 24 Tachwedd 2023.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn y gwahoddiad.*

## 75. EITEM GAN AELOD – CAU ARFAETHEDIG GORSAF DÂN GYMUNEDOL Y RHYL

Cynghorodd y Cynghorydd Mrs J. Butterfield ynghylch y cynnig arfaethedig i gau Gorsaf Dân Gymunedol y Rhyl, ond holodd a fyddai hyn yn bwrw ymlaen yn dilyn cyhoeddiad diweddar gan Awdurdod Tân Gogledd Cymru.

Mynegodd yr aelodau eu hanfoddhad cyffredinol fod gorsafoedd tân y Rhyl a Glannau Dyfrdwy yn parhau i wynebu'r risg o leihau eu horiau staffio.

***PENDERFYNWYD*** *y byddai'r Clerc yn anfon llythyr i Awdurdod Tân Gogledd Cymru yn gofyn am eglurder ynghylch dyfodol yr Orsaf Dân Gymunedol.*

## 76. DIWEDDU'R CYFARFOD

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes cyhoeddodd y Maer ddiwedd y cyfarfod.

Maer: ……..……………………..

Dyddiad: …..……………………..